# Cap mewn llaw?

## Effaith diwygiadau lles ar pobl anabl cymru

Adroddiad gan Bevan FOUNDATION ar gyfer disability wales anabledd cymru

Cap mewn llaw?

publishing details xxxxxxxxx
date xxxxxxx
Bevan logo and DW logo. Any others??

Addresses and tel numbers??
web adresses

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol 2

1 **Cyflwyniad** 4
- 1.1 Cyd-destun y newid 4
- 1.2 Crynodeb o'r diwygiadau 6

2 **Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)** 8
- 2.1 Prif newidiadau 8
- 2.2 Effaith y newidiadau 12

3 **Lwfans Cyflogaeth & Cymorth (ESA)** 14
- 3.1 Prif newidiadau 14
- 3.2 Effaith 15

4 **Budd-dal Tai** 19
- 4.1 Tan-ddeiliadaeth 19
- 4.2 Effaith 23

5 **Cronfa Byw'n Annibynnol** 25
- 5.1 Prif newidiadau 25
- 5.2 Effaith 25

6 **Credyd Cynhwysol** 27
- 6.1 Prif newidiadau 28
- 6.2 Effaith 30

7 **Cap Budd-daliadau** 32

8 **Lwfans Cynhaliwr** 33
- 8.1 Prif newidiadau 33
- 8.2 Effaith 33

9 **Newid Mynegai** 34

10 **Argymhellion** 35

# Crynodeb Gwethredol

Bydd diwygiadau lles diweddaraf Llywodraeth San Steffan yn cael effaith enfawr ar bobl anabl. Bydd pobl anabl ar draws y Deyrnas Unedig yn dioddef oherwydd toriadau i'r cyllidebau lles, gyda phobl anabl Cymru yn dioddef yn arbennig.

Dyma'r newidiadau enfawr a chymhleth sydd ar y gweill:

**Lwfans Byw i'r Anabl (Disability Living Allowance - DLA) yn newid i'r Taliad Annibyniaeth Personol (Personal Independence Payment - PIP).** Bydd PIPyn cynnwys meini prawf asesu mwy caeth naDLA, a dwy gyfradd nid tair. Bydd llawer o bobl anabl yn colli'r hawl i gael PIP ynghyd ag unrhyw fudd-daliadau trosglwyddedig (passported benefits), abydd dileu gwobrau amhenodol yn golygu bydd llawer yn colli'r sicrwydd o gymorth hir dymor.

Cyfuno **Lwfans Cyflogaeth & Cymorth (Employment & Support Allowance - ESA)** o fewn y Credyd Cynhwysol (Universal Credit) o Hydref 2013. Ym marn llawer, mae Asesiadau Gallu Gweithio,a ddefnyddir i bennu cymhwysteri gael ESA, yn anghywir ac annheg. Bydd cyfyngiadau amser ar ESAseiliedig argyfraniadau yn golygu bydd miloedd yn colli'r hawl i ESA ar ôl 1 blwyddyn.

Diwygio **Budd-dal Tai (Housing Benefit)** yn destun pryder mawr. Nifer fach iawn o bobl anabl, ac eithrio plant gydag anableddau dwys, fydd yn gallu osgoi'r rheol tan-ddeiliadaeth ystafelloedd, tra ehangwyd y gyfradd rhannu llety i bawb o dan 35oed, gyda rhai eithriadau prin. Efallai bydd rhaid i bobl anabl, yn cynnwys rhai sy'n byw mewn llety a addaswyd ar gyfer anghenion arbennig, symud neu dalu rhent uwch.

Caewyd y **Gronfa Byw'n Annibynnol (Independent Living Fund - ILF)** i ymgeiswyr newydd a bydd yn diflannu'n llwyr erbyn 2015. Y prif gonsyrn i'r rhai sy'n derbyn ILF yw ansicrwydd gan na wnaed penderfyniad ar beth fydd yn cymryd ei le.

Croesawyd y **Credyd Cynhwysol (Universal Credit - UC)** am ei fod yn fwy hyblyg ac yn canolbwyntio ar yr hyn mae pobl anabl yn gallu gwneud. Fodd bynnag, bwriedir dileu elfen anabledd Credyd Treth Plant a'r Premiwm Anabledd Difrifol, ac ar ben hynny ni fydd llawer o gymorth ar gyfer pobl gyda lefelau anabledd isel. Yn gyffredinol, bydd effeithiau ariannol sylweddol ar bobl anabl yng Nghymru wrth gyflwyno'r Credyd Cynhwysol.

Bydd y **Cap Budd-daliadau** yn effeithio pobl nad ydynt yn gymwys i gael PIP neu elfen grŵp cymorth ESA. Ar ben hynny, gallai **cynhalwyr** pobl anabl golli eu lwfans os bydd y person yn eu gofal yn colli'r hawl i PIP. Bydd newid mynegeion budd-daliadau o RPI i CPI a'r 1% terfyn ar godiadau yn golygu bydd budd-daliadau'n codi yn fwy araf nag yn y gorffennol.

**Argymhellion:** Rydym yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ail-feddwl rhai newidiadaucyn iddynt gael effaith negyddol, hir dymor ar filoedd o bobl anabl yng Nghymru. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i liniaru'r effeithiau gwaethaf ac yn argymell polisïau a chamau i'w cymryd gan y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill.

# 1

# Cyflwyniad

Yn fuan ar ôl i'r Llywodraeth Glymblaid ddod i rym ym Mai 2010, cyhoeddodd Iain Duncan Smith, yr ysgrifennydd gwaith & pensiynau, yn ei araith '*Welfare for the 21st Century*' un o'r diwygiadau mwyaf radical ac uchelgeisiol o'r system les am genhedlaeth neu fwy. Addawodd y Llywodraeth dorri £18 biliwn[1] o'r system fudd-daliadau er 'making work pay'[2] a dileu dibyniaeth annerbyniol o'r system.

Cyn bo hir daeth budd-daliadau pobl anabl oed gwaith yn ffocws i'r broses. Amcangyfrifwyd bod pobl anabl wedi profi gostyngiad mewn incwm o oddeutu £500 miliwn yn dilyn Cyllideb Argyfwng 2010,[3] yn cyfateb i ostyngiad mewn incwm cartrefi pobl anabl rhwng £200 a £2,065 y flwyddyn.[4] Amcangyfrifir bydd diwygiadau lles pellach yn golygu bydd pobl anabl ar draws y Deyrnas Unedig yn wynebu toriadau gwerth oddeutu £9 biliwn dros dymor y Senedd hon - hanner o'r holl doriadau i'r cyllidebau lles.[5]

Mae'r diwygiadau hyn yn cael effaith sylweddol ar bobl anabl yng Nghymru, ac yn wir yn cael effaith fwy na mewn rhannu eraill o'r Deyrnas Unedig oherwydd dibyniaeth pobl anabl ar fudd-daliadau.

## 1.1 Cyd-destun y newidiadau

Mae'r newidiadau i'r budd-daliadau lles yn digwydd o fewn hinsawdd gymdeithasol ac economaidd sydd eisoes yn creu heriau i bobl anabl.

- Mae cyfran uwch o bobl anabl yng Nghymru na gwledydd a rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig.[6]
- Pobl anabl yng Nghymru yn llai tebygol o fod mewngwaith na'r gwledydd a rhanbarthau eraill (ac eithrio gogledd ddwyrain Lloegr a GogleddIwerddon).
- Pobl anabl yn llai tebyg o fod yn gweithio na phobl nid-anabl.[7] Yn 2012, ar draws y Deyrnas Unedig roedd 46% o bobl anabl oed gwaith mewn swyddi o gymharu â 76% o bobl nid-anabl oed gwaith.[8]

- Pobl anabl yng Nghymru yn ennill llai per awr, ar gyfartaledd,na phobl nid-anabl, gyda rhai'n gweithio llawn amser yn ennill 7% llai na phobl nid-anabl.[9]
- Pobl anabl yng Nghymru ddwywaith yn fwy tebygol na phobl nid-anabl o fyw mewn cartref ar incwm isel.[10]
- Pobl anabl yn wynebu costau byw uwch na phobl nid-anabl, costau sy'n cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.
- Bydd gostwng gwariant a chyllidebau awdurdodau lleol yn rhoi pwysau sylweddol ar yr adnoddau byddant yn gallu neilltuo ar gyfer gofal cymdeithasol pobl anabl.
- Cofnodwyd cynnydd mewn lefelau aflonyddwch cysylltiedig ag anabledd.[11]

Daw'r pwysau ar bobl anabl ar yr un pryd â chynnydd mewn delweddau negyddol o bobl anabl ar y cyfryngau. Yn anffodus, gwneir defnydd helaeth o eiriau a chymalau fel 'festering on benefits', 'scrounger' a 'shirker' wrth drafod pobl sy'n hawlio budd-daliadau. Yn ôl ymchwil a gomisiynwyd gan Scope roedd 46% o bobl anabl, eu teuluoedd a chynhalwyr yn teimlo bod agweddau at bobl anabl wedi gwaethygu dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd 83% yn cysylltu hynny â delweddau negyddol ar y cyfryngau yn disgrifio pobl anabl fel 'benefit cheats'.[12] Dengys ymchwil gan Brifysgol Glasgow bod cynnydd mewn adroddiadau am fudd-daliadau a thwyll ar y cyfryngau yn effeithio agweddau pobl at rai sy'n hawlio budd-daliadau cysylltiedig ag anabledd. Mae amcangyfrifon o dwyll-rhai mor uchel â 70% - yn llawer uwch na'r gwirionedd, sef 0.8%,[13] gyda chyfiawnhad o'r amcangyfrifon yn seiliedig ar erthyglau papurau newydd .

### Alice, (gogledd) sy'n derbyn ESA

**Wynebodd Alice broses apêl hir ac emosiynol er mwyn hawlio ESA. Mae'n disgrifio effaith portread y cyfryngau o bobl anabl:**

> ***'Ar y pryd roedd y cyfryngau'n disgrifio ni fel 'benefit scrounging scum...' Gymaint fel roeddwn yn amau a chwestiynu fy hun, teimlo'n emosiynoliawn, ydwi wir yn trio twyllo?!'***

Erbyn hyn, mae teimlad cyffredinol bod hawlio budd-daliadau yn 'benderfyniad personol' a phobl anabl yn fyrdwn ar y wlad, a hynny'n cael effaith negyddol ar brofiadau llawer o bobl anabl. Mae'n ychwanegu at brofiadau anodd llawer o bobl anabl sy'n destun newidiadau mawr i'w budd-daliadau ac yn wynebu problemau gyda'r rhwystrau o'u blaenau.

## 1.2 Crynodeb o'r diwygiadau

Mae Deddf Diwygiadau Lles 2012 yn ddarn mawr o ddeddfwriaeth sy'n crynhoi'r diwygiadau a gyhoeddwyd mewn Cyllideb Argyfwng ac Arolwg Gwariant Cynhwysfawr 2010, ynghyd â chynigion diwygiadau lles eraill a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2010. Yn ogystal, cyflwynwyd newidiadau eraill i fudd-daliadau, yn benodol Budd-dal Tai, drwy gyfrwng deddfwriaeth eilradd (ee rheoliadau).

Gwnaed newidiadau cymhleth, yn cynnwys newidiadau mawr i elfennau cymhwyso a hawlio budd-daliadau cyn eu disodli gan system budd-daliadau cwbl newydd,Credyd Cynhwysol (Universal Credit). Ar ben hynny, mae'r Llywodraeth yn eu cyflwyno mewn camau, gydag amserlenni amrywiol ar gyfer y gwahanol fudd-daliadau, ynghyd â chyflwyno'r Credyd Cynhwysol dros bedair blynedd. O ganlyniad, bydd pobl anabl yn wynebu ansicrwydd incwm sylweddol gyda'r holl newidiadau i fudd-daliadau.

Mae'n amhosibl tan amcangyfrif maint y newidiadau a'u heffaith ar bobl anabl. Er enghraifft, dros 245,000 person yn cael eu heffeithio wrth gyflwyno'r Taliad Annibyniaeth Personol (Personal Independence Payment) a chymhwysedd 163,570 person yng Nghymru sy'n hawlio Budd-dal Analluedd (Incapacity Benefit) neu Lwfans Cyflogaeth & Cymorth (Employment and Support Allowance) yn cael ei asesu gan yr Asesiad Gallu Gweithio (Work Capability Assessment). Yn ogystal, gwnaed newidiadau mawr i rai budd-daliadau sydd, er yn cael eu hawlio gan gyfran fach o bobl anabl, yn hollbwysig iddynt. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y bobl anabl sy'n hawlio'r prif fudd-daliadau.

**Tabl 1: Welfare Benefits <<<!**

| **Budd-dal** | **Nifer yn hawlio, Cymru**[15] |
|---|---|
| Lwfans Cyflogaeth & Cymorth | 61,570 |
| Budd-dal Analluedd | 102,050[16] |
| Lwfans Byw i'r Anabl | 245,780 |
| Cynhorthdal Incwm | 46,480[17] |
| Cronfa Byw'n Annibynnol | 1,089 (*Rhagfyr 2012*) |

Mae’n bwysig pwysleisio bod rhai elfennau o’r diwygiadau lles yn bositif. Er enghraifft, mae cyrff sy’n cynrychioli pobl anabl wedi croesawu symlrwydd y Credyd Cynhwysol newydd, gyda’r ffocws ar alluoedd pobl anabl yn hytrach na’u namau neu gyflyrau meddygol. Maent hefyd wedi croesawu’r cymhelliad i bobl anabl weithio oriau cyfyngedig os am wneud hynny, a’r ffaith bod pobl anabl wedi’u heithrio o rai elfennau o’r newidiadau.

Fodd bynnag, lleisiwyd pryderon mawr am elfennau eraill o’r newidiadau a allai weld rhai cartrefi anabl yn colli symiau sylweddol bob wythnos, a rhai pobl anabl yn colli pob hawl i fudd-daliadau anabledd. Byddyn ostyngiad sylweddol ac yn ergyd drom i bobl sydd eisoes dan anfantais o fewn cymdeithas ac ar y farchnad lafur.

Mae’r adroddiad hwn yn edrych ar y prif newidiadau i fudd-daliadau ar gyfer pobl anabl oed gwaith ac yn amlinellu effeithiau tebygol y newidiadau. Mae’n cynnwys storiâu gan bob anabl yng Nghymru sy’n dangos y pris ariannol, cymdeithasol ac emosiynol uchel mae pobl anabl yn talu am y newidiadau hynny.

1 Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr HMRC, Hydref 2010
2 ‘Making Work Pay’, Welfare in the 21st Century,araithlain Duncan Smith AS ar 27 Mai 2010
3 ‘Disabled People in Britain Face Deteriorating Quality of Life’ - http://www.scope.org.uk/news/austerity
4 Destination Unknown – Demos, Mehefin 2012, tudalen 4
5 Destination Unknown – Demos, Mehefin 2012, tudalen 4
6 Employment Rate of Disabled and Non-disabled people, UK Nations and Regions (Medi 2011), Annual Population Survey NOMIS
7 Disability and Work: A Trade Union Guide to Law and Good Practice (TUC) 2011http://www.tuc.org.uk/equality/tuc-20293-f0.pdf
8 Disability Facts and Figures, Office For Disability Issues, http://odi.dwp.gov.uk/disability-statistics-and-research/disability-facts-and-figures.php#imp
9 EHRC (2011)’An Anatomy of Economic Inequality in Wales’
10 Allen (2011) ‘Disability Poverty in Wales’ Leonard Cheshire Disability
11 EHRC (2012) ‘Agencies Should Do More to Tackle Disability Related Harassment http://www.equalityhumanrights.com/news/2012/october/agencies-should-do-more-to-tackle-disability-related-harassment/
12 Scope (2012) Discrimination increases on back of ‘benefit scroungers’ rhetorichttp://www.scope.org.uk/news/disability-2012/discrimination
13 ‘Fraud and Error in the Benefit System 2010/2011 Estimates (2012) Department of Work and Pensions. tud 1
14 Briant, E., Watson, N., and Philo, G. (2011) Bad News for Disabled People: How the Newspapers are Reporting Disability. Project Report. Strathclyde Centre for Disability Research and Glasgow Media Unit, University of Glasgow
15 Ar Chwefror 2012 oni nodir feol arall
16 DWP Tabulation Tool - http://83.244.183.180/100pc/ib/icdgpsumm/ccgor/a_carate_r_icdgpsumm_c_ccgor_feb12.htm
17 DWP Tabulation Tool -http://83.244.183.180/100pc/is/ccstatgp/ccgor/a_carate_r_ccstatgp_c_ccgor_feb12.htm

# 2

# Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)

Cap mewn llaw?

Mae Lwfans Byw i'r Anabl (Disability Living Allowance - DLA) yn fudd-dal nad yw'n destun prawf moddion sy'n daladwy i bobl anabl mewn ac allan o waith sydd angen cymorth ariannol gydag amhariad neu gyflwr iechyd hir dymor i dalu costau byw, megis anghenion trafnidiaeth a diet, cymhorthion, offer neu ddodrefn wedi'i addasu. Yn ogystal â darparu arian ar gyfer yr hanfodion hyn, bydd llawer o bobl anabl yn defnyddio'r budd-dal i helpu i dalu costau byw, fel gwresogi eu cartref.

Mae DLA yn cynnwys dwy elfen: elfen **gofal** (tair cyfradd) ac elfen **symudedd** (dwy). Bydd y swm bydd pobl yn derbyn yn dibynnu ar eu gradd o dan y ddwy elfen.

Yn nodweddiadol, cyfrifir DLA ar gyfradd wythnosol, gan dalu swm cyfartalog o £69.90. Ar draws y Deyrnas Unedig mae 3,243,530[18] person yn hawlio DLA argost o £11 biliwn. Ar hyn o bryd mae 243,840[19] yn ei hawlio yng Nghymru, 122,950 (menywod) a 120,900 (dynion). Mae'r niferyn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer rhanbarthau/gwledydd eraill y Deyrnas Unedig.

## 2.1 Prif newidiadau

Ar 8 Ebrill 2013 bydd y Taliad Annibyniaeth Personol (Personal Independence Payment - PIP) yn cymryd lle DLA. Fel DLA, mae dwy elfen i PIP:

a. **Elfen Byw Ddyddiol:** ar gyfer pobl anabl y mae eu cyflwr corfforol/meddyliol yn effeithio eu gallu i gynnal gweithgareddau byw dyddiol (tebyg i elfen ofal DLA).
b. **Elfen Symudedd:** ar gyfer unigolion y mae eu cyflwr corfforol/meddyliol yn effeithio eu gallu i symud o gwmpas (tebyg i elfen symudedd DLA).

Mae pob elfen o PIP yn cynnwys dwy gyfradd yn hytrach na thair DLA:

**Tabl 2: Cyflwyno PIP**

| Dyddiad | Newid |
|---|---|
| 10 Mehefin 2013 | Rhaid i hawlwyr newydd wneud cais am PIP. |
| Ar neu ar ôl 7 Hydref 2013 | Bydd rhaid i hawlwyr, sydd wedi profi newid mewn cyflwr iechyd neu effaith amhariad ar neu ar ôl 7 Hydref, wneud cais newydd am PIP, nid DLA. |
| | Bydd hawlwyr gyda'u taliad DLA yn dod i ben neu'n destun adolygiad ar neu ar ôl 7 Hydref 2013 yn derbyn llythyr gan yr Adran Gwaith & Pensiynau yn gofyn a ydynt am hawlio PIP. |
| Hydref 2015 | Bydd hawlwyr, na fydd eu taliad DLA wedi'i adnewyddu neu sydd heb adrodd newid mewn amgylchiadau, yn gorfod gwneud cais am PIP. |

cyfradd safonol a chyfradd uwch. Bwriedir cyflwyno PIP mewn camau dros y 5 blynedd nesaf yn ôl amserlen Tabl 2.

Bydd newid o DLA i PIP yn cynrychioli pedwar prif newid:

## 2.1.1 Ailasesu hawlwyr newydd & cyfredol

Mae proses asesu PIP yn sylweddol wahanol i DLA. O dan y broses newydd bydd hawlwyr yn gorfod llenwi holiadur ar yr amhariad/cyflwr meddygol hir dymor a'i effaith. Bydd hawl gan bobl i ddarparu tystiolaeth feddygol, megis llythyr gan ymgynghorydd meddygol neu dystysgrif amhariad gweledol. Yna, bydd y mwyafrif o bobl yn destun asesiad 'wyneb yn wyneb' er mwyn asesu eu gallu i gyflawni amryw weithgareddau.

Bydd asesiad byw dyddiol PIP yn cynnwys 10 gweithgaredd, a'r elfen symudol yn cynnwys dau. Bydd hawlwyr yn derbyn pwyntiau am eu

gallu i gyflawni pob gweithgaredd cymwys. Bydd taliad PIP yn dibynnu ar nifer y pwyntiau. Bydd sgôr rhwng 8 a 12 mewn un neu'r ddwy elfen yn arwain at roi cyfradd safonol PIP. A sgôr o 12 pwynt neu fwy mewn un neu'r ddwy elfen yn arwain at roi cyfradd uwch PIP.

Yng Nghymru mae DWP wedi rhoi'r contract asesu i Capita, sydd wedi nodi bydd yn dilyn egwyddorion Empathi; Urddas & Parch; Cysur; Cywirdeb, Cysondeb & Tegwch; a Hyrwyddo Cydraddoldeb. Bydd yn parhau i gysylltu â chyfranddeiliaid er mwyn sicrhau y cynhelir yr asesiadau mewn modd teg a phroffesiynol.

### 2.1.2 Dileu'r gyfradd is

Bydd cyflwyno PIP yn golygu dileu cyfradd gofal is DLA.

Bydd pobl sy'n derbyn taliad gofal is DLA ar hyn o bryd ac yn gymwys i gael cyfradd byw dyddiol safonol PIP yn gweld cynnydd bach iawn yn eu budd-dal. Ond, tynhawyd y meini prawf i hawlio arian PIP, felly rhagwelir bydd nifer sylweddol o bobl yn colli eu budd-dal.

**Tabl 3: Gwahaniaethau rhwng DLA a PIP**

| **Lwfans Byw i'r Anabl** | | **Taliad Annibyniaeth Personol** | |
|---|---|---|---|
| **Gofal** | | **Byw Dyddiol** | |
| Isaf | £20.55 | - | - |
| Canol | £51.85 | Safonol | £53.00 |
| Uchaf | £77.45 | Uwch | £79.15 |
| **Symudedd** | | **Symudedd** | |
| Is | £20.55 | Sofonol | £21.00 |
| Uwch | £54.05 | Uwch | £55.25 |

## 2.1.3 Colli budd-daliadautrosglwyddadwy

Bydd pobl anabl sy'n colli cymhwyster i PIP yn gyfan gwbl, neu sy'n derbyn lefel is nag yn y gorffennol, nid yn unig yn colli'r budd-dal hwnnw ond hefyd yn debygol o golli budd-daliadau eraill y mae derbyn DLA / PIP yn darparu pasbort i bethau eraill. Maent yn cynnwys eithrio o'r cap budd-daliadau, eithrio o'r cyfyngiad ar hawliadau Budd-dal Tai gan bobl o dan 35 oed i'r gyfradd rhannu llety, cymhwyster 'bathodyn glas,[20] cerdyn rheilffordd/bws person anabl a'r gallu i gael cerbyd symudedd.

Er enghraifft, bydd rhywun sy'n derbyn elfen symudedd cyfradd uwch DLA yn gallu cael car symudedd a bydd y cymhwyster hwnnw'n parhau os yn gymwys i gyfradd uwch elfen symudedd PIP. Ond, mae'r meini prawf yn dynnach– yn awr rhaid i hawlwyr fod yn methu cerdded 20 metr heb stopio,ble gynt roedd yn 50 metr.

### Mark, 59 oed, Caerdydd, gweithio rhan amser

**Ar hyn o bryd mae Mark yn derbyn taliad symudedd uwch DLA ac felly'n cael car symudedd. Oherwydd ei gyflwr nid yw Mark yn gallu cerdded llawer ac mae'n defnyddio baglau cerdded. Mae'n dibynnu ar ei gar i fynd i waith. Cyn bo hir bydd yn destun ailasesiad wrth newid o DLA i PIP. Mae Mark yn poeni na fydd yn derbyn cyfradd uwch PIP ac felly'n colli ei gar. Os digwydd hynny, bydd yn methu mynd i waith ac o bosibl yn gorfod gadael swydd mae'n mwynhau ac yn dibynnu arno yn ariannol.**

## 2.1.4 Adolygiadau rheolaidd

Seiliwyd PIP ar alluoedd unigolion, gan roi budd-dal am gyfnod penodol ac yn destun ail-asesu rheolaidd (ac eithrio pobl gydag afiechyd marwol), tra bod rhai hawlwyr yn gymwys i gael DLA oherwydd cyflwr neu amhariad penodol. Ni thelir taliadau amhenodol bellach.

## 2.2 Effaith newidiadau i DLA

Mae llawer o'r cyrff sy'n cynrychioli pobl anabl yn croesawu rhai elfennau o PIP, er enghraifft y ffocws ar beth mae pobl anabl yn gallu gwneud yn hytrach namethu gwneud, a'r cynnydd yn y gyfradd a delir i rai pobl anabl. Fodd bynnag, mae ganddynt nifer o bryderon am y trefniadau newydd.

> **Jayne, 36 oed, yn derbyn DLA**
>
> ***'Rwy'n poeni am wneud cais am PIP, mae eisoes yn effeithio fy iechyd hyd yn oed cyn i'r llythyr gyrraedd. Rwy'n cofio faint o bwysau fyddai bob blwyddyn wrth wneud cais am DLA, tan i mi dderbyn gwobr amhenodol 4 blynedd yn ôl, ac rwy'n gwybod bydd y cais nesaf yn waeth. Rwyf wedi darllen am brofiadau iechyd pobl gyda'r toriadau a chyflwyno PIP ac yn cydymdeimlo â hynny'***

Yn gyntaf, bellach ni fydd pobl anabl yn sicr o dderbyn cymorth gyda'u costau byw a symudedd am y dyfodol rhagweladwy. Bydd hyd yn oed pobl gyda chyflwr heb unrhyw bosibilrwydd o wella neu'n dioddef o afiechyd marwol gyda disgwyliad oes o fwy na chwe mis yn wynebu ailasesiad rheolaidd o'u cymhwyster i gael help. Mae wynebu ailasesiad yn gallu rhoi pwysau mawr ar bobl anabl, a hyd yn oed yn gallu gwneud eu cyflwr yn waeth os yw'n gysylltiedig â straen. Mae cyrff yn poeni bydd PIP yn mabwysiadu'r un broses asesu â'r Asesiad Gallu Gweithio ar gyfer ESA, sydd wedi profi'n ddadleuol iawn.

Yn ail, mae cyrff sy'n cynrychioli pobl anabl am sicrhau bydd y broses asesu'n deg ac yn ystyried cyflyrau sy'n gallu newid, sy'n dibynnu ar gymhorthion neu ffrindiau am gymorth,neu rai gyda chyflyrau iechyd meddwl. Mae profiadau pobl gyda'r asesiadau gallu gweithio wedi cynyddu pryder am degwch asesiadau PIP (i'w cynnal gan gontractwr gwahanol yng Nghymru, sef Capita).

Yn drydydd, mae pryder bydd llawer o bobl anabl oedd gynt yn gallu hawlio DLA yn anghymwys i gael PIP, neu ddim yn gymwys i gael budd-dal ar yr un lefel. Mae'r Llywodraeth wedi amcangyfrif bydd oddeutu 500,000 person ddim bellach yn gymwys i gael PIP o dan y drefn

newydd. Pro-rata, gallai hynny olygu bydd 25,000 person anabl yn colli budd-dal yng Nghymru.

Yn yr un modd, gallai rhai pobl anabl dderbyn PIP ar gyfradd is na'r DLA maent yn derbyn ar hyn o bryd. Gallai colli budd-daliadau gael effaith ariannol ddifrifol arnynt. Efallai bydd pobl anabl yn methu fforddio talu am gymorth hanfodol neu dalu anghenion symudedd. Er enghraifft, mae llawer o bobl anabl yn dibynnu ar DLA i helpu gyda chostau ychwanegol – gydag ymchwil Disability Alliance yn 2010-2011 yn nodi bod 56% o'r rhai a holwyd wedi dweud byddai colli DLA yn golygu byddent yn gorfod stopio gweithio.[21] Yn ogystal, bydd colli PIP neu newid cyfradd yn effeithio gallu pobl i hawlio budd-daliadau eraill. Er enghraifft, bydd rhywun nad yw bellach yn gymwys i gael cyfradd symudedd uwch PIP hefyd yn colli cymhwyster i'r cynllun symudedd.

Mae'n sefyllfa bryderus iawn oherwydd bydd pobl anabl yn derbyn llai o arian wrth ostwng eu hawl i fudd-daliadau.Bydd pobl anabl yn brin o arian i brynu car; talu costau yswiriant, cynnal a chadw ac unrhyw addasiadau angenrheidiol – pethau mae'r cynllun symudedd yn talu ar hyn o bryd.

Gallai hynny adael llawer o unigolion mewn sefyllfa debyg i Mark – ar ben eu hunain ac o bosibl yn methu teithio i waith.

18 (2,781,010 ac eithrio pobl cyfradd sero)
19 (204,180 ac eithrio pobl cyfradd sero)
20 Ni fydd yn golygu na fyddwch yn gymwys i gael 'bathodyn glas', mae ffyrdd eraill o gael bathodyn
21 End of a Lifeline? Ending Disability Living Allowance to Introduce Personal Independence Payment. DLA Reform Consultation Response, Disability Rights Partnership, February 2011

# 3

# Lwfans Cyflogaeth & Cymorth (ESA)

Cyflwynwyd y Lwfans Cyflogaeth & Cymorth (Employment and Support Allowance - ESA) i gymryd lle Budd-dal Analluedd(Incapacity Benefit)yn 2008 er darparu arian ar gyfer pobl sy'n methu gweithio oherwydd amhariad neu gyflwr iechyd hir dymor. Mae dau fath o ESA:

a. **ESA seiliedig ar gyfraniadau:** Budd-dal nad yw'n destun prawf moddion yn daladwy i bobl yr ystyrir sy'n methu gweithio ac wedi gwneud y cyfraniadau yswiriant cenedlaethol cymwys.
b. **ESAseiliedig ar incwm:** Budd-dal prawf moddion yn agored i bobl yr ystyrir sy'n methu gweithio ond heb wneud y cyfraniadau yswiriant cenedlaethol cymwys. Rhaid i hawlwyr fod â chynilion cartref llai na £16,000, a'u partner yn gweithio dim mwy na 24 awr yr wythnos.

## 3.1 Prif newidiadau

Cyflwynwyd newidiadau i ESA/IB dros gyfnod, nodir y prif rai a'r amserlen yn y Tabl.

**Tabl 4: Newidiadau i ESA/IB**

| | |
|---|---|
| **Chwefror 2011:** | Dechrau asesiadau gallu gweithio pobl yn hawlio Budd-dal Analluedd a phobl anabl yn hawlio Cymhorthdal Incwm |
| **Ebrill 2012** | Cyfyngu ESA seiliedig ar gyfraniadau i un flwyddyn yn achos rheiny nad ydynt yn y grŵp cymorth |
| **Hydref 2013 ymlaen** | Cyfuno ESA o fewn Credyd Cynhwysol |

### 3.1.1 Asesiad Gallu Gweithio

Asesir pobl sy'n ceisio hawlio ESA neu'n trosglwyddo o'r Budd-dal Analluedd i ESA er mwyn pennu eu ffitrwydd i weithio. Pennir pobl yn ffit i

weithio ac felly'n anaddas i hawlio ESA, neu'n methu gweithio a'u rhoi yn y **grŵp gwaith** (work-related activity group – WRAG), neu **grŵp cymorth** (support group) ESA. Disgwylir i'r rhai yn WRAG gymryd rhan mewn cyfweliadau gwaith er mwyn eu helpu i baratoi am waith maes o law. Ni ddisgwylir i'r bobl grŵp cymorth weithio oherwydd yr amhariad a/neu cyflwr iechyd hir dymor.

### 3.1.2 Cyfyngiad amser ar ESA seiliedig ar gyfraniadau

Yn awr mae pobl sy'n hawlio ESA seiliedig ar gyfraniadau yswiriant cenedlaethol ac mewn grŵp gwaith ond yn gallu hawlio ESA am 365 diwrnod. Derbyniodd y bobl hynny sydd eisoes wedi derbyn ESA seiliedig ar gyfraniadau am dros 365 diwrnod eu taliad olaf ar 30 Ebrill 2012. Maent yn wynebu'r posibilrwydd o golli eu hincwm cyfan oni fyddant yn gymwys i hawlio budd-dal prawf moddion arall. Er enghraifft, bydd person anabl gydag ESA seiliedig ar gyfraniadau sy'n dod i ben ar ôl blwyddyn ond yn gymwys am ESA seiliedig ar incwm os yw incwm y cartref yn isel a'u cynilion yn llai na £16,000.

Mae'n werth nodi y gwneir asesiad cronnus o gais am ESA seiliedig ar gyfraniadau – felly byddai unigolyn sy'n derbyn ESA am saith mis o fewn WRAG ac yna'n trosglwyddo i'r grŵp cymorth, ond yn gallu hawlio 5 mis o ESA seiliedig ar gyfraniadau ESA petai eigyflwr yn gwella ac yn cael eu trosglwyddo nôl i WRAG.

## 3.2 Effaith newidiadau i ESA

Mae cyfran sylweddol uwch o boblogaeth Cymru yn derbyn ESA.Yn Chwefror 2012, roedd 61,570 person yng Nghymru yn hawlio ESA (28,230 menyw a 33,330 dyn).[22] O'r rheiny sydd wedi derbyn asesiad gallu gweithio (ac eithrio pobl yn derbyn asesiad/anhysbys) roedd 69% o'r menywod a 65% o'r dynion yn WRAG. Dim ond 31% o fenywod a 35% o ddynion sydd yn y grŵp cymorth.

Bydd newidiadau ESA yn cael nifer o effeithiau.

Mae llawer o gyrff sy'n cynrychioli pobl anabl wedi mynegi pryder mawr

am y ffyrdd y trefnwyd yr Asesiadau Gallu Gweithio gan ATOS hyd yma. Er yr adolygwyd y broses yn 2010, 2011 a 2012 yn dilyn anawsterau difrifol, yn arbennig yn y cyfnod cynnar, datgelodd yr adolygiad diweddaraf gamau i weithredu rhai ond nid pob un o argymhellion yr adolygiadau blaenorol. O ganlyniad, mae llawer o bobl anabl yn wynebu problemau sylweddol gyda'r drefn asesu. Mae pryderon penodol am y dull asesu 'ticio blychau' nad yw, ym marn llawer o bobl anabl, yn ystyried cymhlethdod cyflwr neu amhariad, ac sy'n canolbwyntio ar gyflyrau meddygol yn hytrach nag elfennau cymdeithasol anabledd. Yn benodol, mae pobl gyda chyflyrau iechyd meddwl, gwybyddol (cognitive) neu anwadal yn wynebu problemau difrifol.

Hyd yma, o'r hawlwyr sydd wedi derbyn asesiad, barnwyd 837,600 yn 'ffit i weithio'.[23] Hyd at fis Gorffennaf 2012, apeliwyd yn erbyn 41% o benderfyniadau 'ffit i weithio' y Deyrnas Unedig.[24] Profodd 40% o'r apeliadau yn llwyddiannus, gan newid y penderfyniad.[25]

Mae'r holl broses o dderbyn asesiad ac, os bydd angen, yr apêl yn gallu creu gofid a straen mawr ar bobl anabl. Yn ogystal, mae'r rhai a fernir yn ffit i weithio yn colli pob cymhwyster i hawlio ESA ac un ai'n trosglwyddo i fudd-dal arall megis Lwfans Chwilio Gwaith (Jobseeker's Allowance - JSA)neu'n dod allan o'r system fudd-daliadau yn gyfangwbl. Yng Nghymru, cynhelir rhai gwrandawiadau tribiwnlys mewn ystafelloedd llysoedd, sefyllfa nad yw'n ddelfrydol a dweud y lleiaf. Mae hynny'n cynyddu'r straen ar bobl anabl wrth fynd drwy'r broses apelio. Mae gosod cyfyngiad amser ar ESA seiliedig ar gyfraniadau yn cael effaith sylweddol. Yn ôl asesiadau effeithiau'r DWP ei hun, amcangyfrifir bod 90% o hawlwyr ESA seiliedig ar gyfraniadau yn WRAGyn cael eu heffeithio gan y

**Karen, 58 oed, Penybont**

***'Cynhaliwyd fy ngwrandawiad yn y llysoedd barn lleol.Roedd rhaid cerdded drwy sganiwr wrth gyrraedd gyda swyddog diogelwch wrth y drws. Dywedodd wrthyf i fynd i'r llawr cyntaf i fyny'r grisiau.Mae dringo grisiau yn anodd i mi felly gofynnais i ddefnyddio'r lifft. Aeth hwnnw â mi i ystafell brysur ble roedd pobl yn aros i fynd i lys – pobl oedd wedi cyflawni trosedd o ryw fath.Roeddwn yn teimlo fel troseddwr fy hun! Awgrymwyd y dylwn geisio anghofio'r amgylchiadau – ond nid oedd modd anwybyddu'r ffaith fy mod mewn amgylchedd llys barn.'***

### Ryan, Caerdydd

*‘Gadewais fy swydd ym Mawrth 2010 a dechrau derbyn ESA. O fewn ychydig fisoedd, derbyniais wahoddiad i gael asesiad. Roeddwn wedi dweud fy mod yn dioddef o KFS, problemau pwysau gwaed a gorbryder. Derbyniais y canlyniadau ychydig fisoedd wedyn a chanfod fy mod wedi derbyn sero pwyntiau. Yn naturiol, trïais i a fy ngweithiwr cymorth newid y penderfyniad ond ar ôl gwrthwynebiad llwyr gan feirniad y DWP aethom i dribiwnlys.’*

*‘Anfonais y ddogfen yn Awst 2010 ac fe gymrodd tan fis Mawrth 2011 i mi dderbyn dyddiad ar gyfer gwrandawiad. A hyd yn oed wedyn, gohiriwyd y dyddiad oherwydd nid oeddynt wedi derbyn y nodiadau o’r apêl DLA a gyflwynais ar yr un pryd. Felly roedd rhaid aros dros fis arall. Yn y pen draw clywyd yr apêl ESA ym mis Mai. Derbyniais 18 pwynt a’r elfen gysylltiedig â gwaith wedi’i dalu o Awst 2010. Newyddion gwych ond dros dro yn unig.’*

*‘Ym Medi 2011 derbyniais wahoddiad am asesiad arall. Yn naturiol, roeddwn yn bryderus iawn am fynd drwy’r holl beth eto. Yn ystod cyfnod yr apêl roeddwn o dan bwysau ariannol mawr, yn methu talu biliau, prynu bwyd ac ar adegau’n ffaelu cael nwy dros fisoedd y gaeaf.’*

*‘Y tro hwn derbyniais 15 pwynt. Rhaid dweud bod yr aseswr yn groesawgar ac yn ddeallus iawn y tro hwn. Ond unwaith eto roeddwn yn poeni am beth ddigwyddodd y tro cyntaf. Yn awr rwyf mewn gwaith rhan amser ac yn ei fwynhau’n fawr. Ond rwy’n sicr o gael asesiad arall rhyw bryd. Yn y cyfamser mae llawer o bobl anabl mewn sefyllfa waeth na mi sydd wedi’u barnu’n ffit i weithio gan y corff yma ac rwy’n teimlo drostynt.’*

cyfyngiad o un flwyddyn ar hyd eu budd-dal.[26] O'r rheiny, ni fydd 40% yn gymwys i hawlio ESA seiliedig arincwm ac felly'n gorfod symud i fudd-dal arall, os yn gymwys, neu allan o'r system fudd-daliadau yn gyfangwbl. Erbyn Ebrill 2013, bydd 400,000 person anabl yn y Deyrnas Unedig wedi colli rhan, os nad y cyfan o'u hawliad ESA yn dilyn y newid.[27] Yng Nghymru, yn Chwefror 2012 roedd 5,450 person yn derbyn ESA seiliedig ar gyfraniadau yn y grŵp gwaith, ac wedi bod yn ei hawlio am dros flwyddyn. Bydd y bobl hynny wedi colli eu cymhwyster i hawlio ESA seiliedig ar gyfraniadau, ac wedi trosglwyddo i fudd-dal prawf moddion neu wedi colli budd-daliadau yn llwyr.

Efallai bydd llawer o unigolion a fernir yn ffit i weithio neu sy'n mynd dros yr amser i hawlio ESA seiliedig ar gyfraniadau yn ystyried hawlio'r Lwfans Chwilio Gwaith.Fodd bynnag, mae'n annhebyg bydd rhywun sydd wedi bod yn hawlio ESA wedi gwneud digon o gyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol i hawlio'r Lwfans Chwilio Gwaith seiliedig ar gyfraniadau ac, yn debyg i ESA,efallai bydd cynilion neu incwm arall ganddynt fydd yn eu rhwystro rhag hawlio Lwfans Chwilio Gwaith seiliedig ar gyfraniadau.

Yn ogystal, gallai gofynion y Lwfans Chwilio Gwaith brofi'n anodd i bobl anabl. Er bod y canllawiau yn awgrymu gellir rhyddhau'r gofynion yn achos pobl sy'n derbyn triniaeth, nid oes modd eu newid ar gyfer pobl anabl. Er enghraifft, efallai bydd pobl anabl yn methu teithio i waith mor bell ag y bydd pobl nid-anabl neu angen addasiadau i'r gweithle. Bydd llawer o'r bobl a allai symud o ESA i'r lwfans Chwilio Gwaith wedi bod allan o'r farchnad lafur am gyfnod hir, ac ynbrin o sgiliau a phrofiad diweddar i'w helpu i gael gwaith. Dengys ystadegau DWP bod 94% o bobl anabl yn WRAG yn cymryd mwy na blwyddyn i gael gwaith.[28]

22 DWP Tabulation Tool, Employment Support Allowance http://83.244.183.180/100pc/tabtool.html
23 Employment and Support Allowance: Outcomes of Work Capability Assessments, GB – New Claims, DWP: Quarterly Statistics Bulletin, rhifyn 22 Ionawr 2013
24 Employment and Support Allowance: Outcomes of Work Capability Assessments, GB – New Claims, DWP: Quarterly Statistics Bulletin, Issue 24: 2012
25 Employment and Support Allowance: Outcomes of Work Capability Assessments by Health Condition and Functional Impairment; Official Statistics, DWP 2011.
26 DWP Impact Assessment, 'Time Limit Contributory Employment and Support Allowance' (20/04/2011).
27 DWP Impact Assessment, 'Time Limit Contributory Employment and Support Allowance' (20/04/2011).
28 DWP, Atebion Seneddol Ysgrifenedig Tŷ'r Cyffredin, Mai 2011 y cyfeiriwyd atynt yn Tipping Point Hardest Hit Campaign, 2012

Cap mewn llaw?

# 4 Budd-dal Tai

Mae budd-dal tai yn helpu pobl ar incwm isel, dim ots os yn anabl ai peidio, gyda chostau rhentu cartref. Mae'n destun prawf moddion, gyda'r swm taladwy'n dibynnu ar gyfuniad o incwm, rhent ac anghenion teuluol.

Gwnaed nifer o newidiadau i'r drefn eisoes, gyda mwy i ddod yn y dyfodol agos. Amlinellir y prif newidiadau isod.

## 4.1 Tan-ddeiliadaeth

Cyflwynir y 'dreth ystafell wely' yn Ebrill 2013 ac mae'n debyg o gael effaith ddifrifol ar nifer fawr o hawlwyr Budd-dal Tai. O dan reolau newydd y DWP, bydd teuluoedd o oedran gwaith sy'n byw mewn tai cymdeithasol ond yn gallu hawlio budd-dal am nifer yr ystafelloedd yr ystyrir eu bod angen, sef un ystafell wely (yr un) ar gyfer y dilynol:

- pob pâro oedolion
- person sengl 16+ oed
- dau blentyn o'r un rhyw o dan 16
- dau blentyn o unrhyw ryw hyd at 10 oed
- cynhaliwr yn darparu gofal dros nos.

Nid oes llawer o eithriadau i'r rheol hon. Nid oes eithriad ar gyfer pobl anabl mewn cartref a addaswyd mewn rhyw fodd, hyd yn oed yn sylweddol; dim eithriad ar gyfer pobl anabl gyda chynhaliwr sy'n aros dros nos yn achlysurol yn hytrach

> **Andy, 49**
> **Ceredigion**
>
> **Mae gan Andy gyflwr asgwrn cefn dirywiol. Nid yw'n gallu symud ei gorff o'i wasg i lawr ac mae'n defnyddio cadair olwyn.**
>
> **Mae'n byw mewn byngalo dwy ystafell wely drwy 'Tai Ceredigion' gyda'i bartner/cynhaliwr Sarah. Mae wedi byw yno am ddwy flynedd ar ôl treulio wyth mis yn yr ysbyty.**
>
> **Gwnaed addasiadau i'w gartref er mwyn hwyluso mynd mewn ac allan. Mae grant cyfleusterau anabl wedi helpu Andy i osod ystafell wlyb, lledu drysau a gosod rhai drysau newydd. Yn ddiweddar, cymeradwywyd addasiadau pellach ac ar**

na'n rheolaidd, nac ar gyfer person anabl y mae ei bartner yn cysgu mewn ystafell ar wahân neu gydag ystafell arall i storio cymhorthion neu offer anabledd.

**hyn o bryd mae'n aros am gegin newydd – gyda sinc, cwcer ac arwynebau gwaith is er mwyn ei helpu i goginio.**

**Mae'r cyngor wedi gwario arian sylweddol i addasu cartref Andy.**

**Bydd Andy yn colli £10.15 yr wythnos o 1 Ebrill a bydd rhaid iddo ostwng ei fil gwresogi mewn ymateb i hynny.**

**Mae wedi ystyried rhoi ei gar symudedd yn ôl er mwyn cael arian i dalu'r 'dreth ystafell wely'. Ond os yn gwneud hynny ni fydd yn gallu symud o gwmpas mor hawdd, fydd yn gostwng ei annibyniaeth yn sylweddol. Nid oes llawer o wasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus yn ardaloedd gwledig y canolbarth, felly byddai colli ei gar yn achosi anawsterau mawr.**

**Ar hyn o bryd mae Andy yn derbyn Lwfans Byw i'r Anabl (cyfraddau symudedd a gofal uwch) ac ESA (grŵp cymorth).**

Gwelwyd yr unig newid i'r sefyllfa yn dilyn penderfyniad y Llys Apêl yn 2012, a ddyfarnodd y gallai plant gydag anabledd difrifol gael hawl i ystafell wely eu hunain cyn belled eu bod yn gallu dangos bod yr amhariad a/neu cyflwr iechyd hir dymor yn ei gwneud yn anaddas i rannu ystafell. Ymgorfforwyd y dyfarniad hwnnw yn y cyfarwyddyd Budd-dal Tai,[29] sy'n galw ar deuluoedd i brofi i'r awdurdod lleol natur a difrifoldeb cyflwr y plentyn, natur ac amlder y gofal angenrheidiol dros nos, a'r effaith ar gwsg plentyn fyddai fel arfer yn rhannu'r ystafell wely. Wedi dweud hynny, mae Llywodraeth San Steffan yn apelio penderfyniad y Llys Apêl ac felly gallai'r cyfarwyddyd newid yn y dyfodol.

Bydd pobl anabl gydag un ystafell wely mwy na'r hyn yr ystyrir yn angenrheidiol yn colli 14% o'u Budd-dal Tai, a rhai gyda dwy ystafell neu fwy dros ben yn colli 25%.

Bydd rhai pobl anabl sy'n wynebu gostyngiad mewn budd-dal tai yn gallu gwneud cais am Taliad Tai Dewisol (Discretionary Housing Payment - DHP). Clustnodwyd £25 miliwn o'r gronfa hon ar gyfer pobl anabl o 2013/14[30] er mwyn osgoi achosion ble bydd pobl sy'n byw

mewn cartrefi gydag "addasiadau sylweddol" yn gorfod symud i gartref llai. Gellir hefyd defnyddio'r Taliad i wneud iawn am golli budd-dal gan deulu neu unigolyn anabl sy'n dibynnu'n helaeth ar rwydwaith cymorth lleol.

Tra bod croeso i'r cyllid ychwanegol hwn, mae'r sefyllfa yn achosi pryder. Wedi'r cyfan nid oes hawl i gael yr arian, yn hytrach rhoir ar ddisgresiwn yr awdurdod lleol sy'n gweinyddu'r gronfa. Bydd y swm a roir i bob awdurdod lleol yn amrywio'n helaeth, nid yn ôl anghenion lleol ond wrth adlewyrchu defnydd hanesyddol o DHP, a bydd gwahaniaethau sylweddol rhwng defnydd a dealltwriaeth awdurdodau lleol o'r canllawiau. Yn ogystal, mae'r gronfa yn gyfyngedig. Hynny yw, pan fydd arian y flwyddyn wedi dod i ben, ni fydd modd gwneud taliadau pellach.

### 4.1.2 Cyfradd rhannu llety pobl dan 35 oed

Yn dechrau ar 1 Ionawr 2012, bydd pobl sengl dan 35 oed (heb ddibynyddion) sy'n byw yn y sector rhent preifat ond yn gallu hawlio Budd-dal Tai ar y 'cyfradd rhannu llety' (cyn hynny roedd yn gymwys i bobl o dan 25 yn unig).

Mae hyn yn gymwys i bobl anabl **oni** fyddantyn derbyn elfen gofal canolig neu uwch DLA (neu elfen byw ddyddiol PIP), yn derbyn Taliad Anabledd Difrifol (Severe Disability Payment) neu os bydd angen ystafell wely ychwanegol ar gyfer cynhaliwr dros nos. Nid yw'n glir beth fydd yn digwydd pan fydd SDP yn diflannu wrth gyflwyno PIP yn lle DLA.

Bydd pobl 'agored i niwed' (vulnerable), a allai gynnwys rhai pobl anabl, yn gallu gwneud cais am gymorth gyda'r gostyngiad Budd-dal Tai o'r gronfa DHP ond nid yw disgrifiad 'agored i niwed' yn glir. Yn ogystal, byddai llawer o bobl anabl yn anhapus gydag unrhyw ddiffiniad o'r fath.

Amcangyfrifir mai'r gwahaniaeth rhwng y gyfradd rhannu llety a'r rhent gwirioneddol fydd £23.40 yr wythnos.[31]

### 4.1.3 Gostyngiad oedolyn nid-dibynnol

Gostyngir y Budd-dal Tai os bydd oedolyn nid-dibynnolyn byw yn yr un llety. Oedolyn nid-dibynnol yw rhywun nad yw'n bartner, plentyn, lletywrneu is-denant sy'n byw yn yr un cartref.

Ond, ni ostyngir taliadau i'r bobl anablhyn (ymhlith eraill):

- deillion cofrestredig
- derbyn elfen gofal canolig neu uwch DLA neu elfen byw ddyddiol PIP
- Derbyn Lwfans Gweini (Attendance Allowance)

Yn ogystal, ni wneir gostyngiadau os bydd y person nid-dibynnol yn derbyn y dilynol (ymhlith ffactorau eraill):

- elfen gofal canolig neu uwch DLA neu elfen byw ddyddiol PIP
- Lwfans Gweini
- Lwfans Cynhaliwr.

**Senario posibl**

**Liam 31 oed,
Casnewydd**

**Mae Liam wedi byw yn ei fflat un ystafell wely ers 2006. Ar hyn o bryd mae'n hawlio ESA (grŵp gwaith) ac yn derbyn DLA cyfradd is. Bydd ymestyn y gyfradd rhannu llety yn torri £36 yr wythnos o fudd-dal tai Liam. Ni fydd yn gallu ymdopi â hynny ac felly bydd yn gorfod symud i rannu llety arall. Mae gan Liam Syndrom Asperger's, ffurf o awtistiaeth; a hefyd yn wynebu gorbryder ac iselder.**

**Oherwydd ei gyflwr, mae'n gynyddol anos iddo fyw gyda phob eraill ac mae'n anniddig yng nghwmni pobl ddieithr. Bydd symud i rannu llety'n debyg o gael effaith negyddol ar ei gyflwr.**

## 4.2 Yr effaith

Bydd y newidiadau i'r Budd-dal Tai yn debyg o gael effaith sylweddol ar bobl anabl. Er yn eithrio pobl sy'n derbyn cyfradd ganolig neu uwch DLA / PIP o rai o'r darpariaethau, bydd hyd yn oed y bobl fwyaf anabl yn destun y 'dreth ystafell wely' tra ni fydd pobl gydag amhariadau llai yn derbyn cymorth i'w helpu gyda newidiadau eraill.

Yn ôl Asesiad Effaith DWP, bydd cartrefi sy'n cynnwys person anabl yn fwy tebygol o gael eu heffeithio wrth gyflwyno'r meini prawf maint na phobl nid-anabl. Yn rhannol bydd hynny oherwydd bod hawlwyr anabl ar gyfartaledd yn hŷn na hawlwyr nid-anabl (ac felly gydag ystafell wely sbâr oherwydd bod eu plant wedi gadael y cartref) a hefyd am fod hawlwyr anabl yn llai tebygol o fyw mewn teuluoedd gyda phlant.[32]

Ar draws y Deyrnas Unedig, mae DWP yn amcangyfrif bydd y newid yn effeithio 670,000 cartref, gydag oddeutu 420,000 (63%[33]) yn cynnwys person anabl. Ar hyn o bryd nid oes ffigurau ar gyfer y bobl anabl yng Nghymru sy'n debyg o gael eu heffeithio. Bydd teuluoedd a effeithir gan y rheol tan-ddeiliadaeth yn gweld gostyngiad o £13 yr wythnos yn eu budd-dal tai, ond gall fod yn llawer uwch yn achos rhai teuluoedd.

Yn ogystal, mae llawer o bobl anabl o dan 35 oed yn debyg o fod yn destun y rheol rhannu llety os na fyddant yn hawlio'r Premiwm Anabledd Difrifol neu gyfradd ganolig neu uwch DLA.

Bydd pobl anabl nad yw budd-dal tai bellach yn diwallu eu hanghenion yn gallu, o dan rai amgylchiadau, gwneud cais am DHP a amlinellwyd yn gynharach. Fodd bynnag, ni fydd y mwyafrif helaeth o bobl anabl yn gymwys i hawlio DHP ac felly bydd rhaid talu'r rhent uwch neu symud cartref.

Dengys ymchwil fod llawer o bobl, anabl a nid-anabl, ddim am symud a byddant yn ceisio gwneud iawn am y gostyngiad mewn budd-dal tai o'u hadnoddau eu hunain. Mae newid o DLA i PIP neu golli ESA yn debyg o wneud pethau'n gynyddol anodd i'r rhai sydd eisoes ar incwm isel i gael hyd i arian ychwanegol i dalu'r rhent.

Awgrym DWP yw bod pobl yn ystyried gofyn cyflogwr am oriau gwaith ychwanegol, cael hyd i swydd neu rywun i rannu eu llety. Awgrymiadau fydd yn anodd iawn i bobl anabl eu dilyn - gall amhariad olygu eu bod yn methu gweithio oriau ychwanegol hyd yn oed petai hynny'n opsiwn. Yn ogystal, bydd pobl anabl yn wynebu mwy o anawsterau wrth geisio cael gwaith na phobl nid-anabl, a bydd rhai'n anniddig iawn wrth hyd yn oed ystyried rhannu eu cartref.

Yr opsiwn arall yw bod pobl anabl yn symud i lety cymwys i'w budd-dal tai. Mae symud i lety newydd yn codi nifer o faterion sylweddol. Mae prinder mawr o gartrefi llai yn y sector tai cymdeithasol, ac nid yw llawer ohonynt yn debyg o gynnwys addasiadau ar gyfer pobl anabl. Ar ben hynny, mae prinder llety rhent bach yn y sector preifat a'r rheiny hefyd yn annhebygol o gynnwys addasiadau neu hyd yn oed o gael caniatâd gan landlord i wneud y fath addasiadau.

Mae gofyn pobl anabl i rannu llety yn codi'r risg o orfod byw gyda thenantiaid anaddas, gyda phroblemau megis troseddu, cyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gallu codi mewn llety o'r fath. Efallai bydd rhai pobl anabl yn gweld eu cyflwr yn dirywio wrth fyw mewn amgylchedd bygythiol neu swnllyd.Ar ben hynny, mae pryderon am risgiau troseddau atgasedd mewn llety lluos breswyl, sydd nid yn unig yn effeithio pobl anabl ond pobl gyda nodweddion bregus eraill.

Ac fe all fod amgylchiadau ble bydd pobl anabl yn gorfod symud allan o ardal maent yn adnabod ac i ffwrdd o'u rhwydwaith cymorth. Gallai bywyd bob dydd heb gymorth neu mewn amgylchedd newydd brofi'n llawer mwy anodd.

29 Department for Work and Pensions (2012) Housing Benefit and Council Tax Benefit CircularHB/CTB A4/2012. Copi yn: http://www.dwp.gov.uk/docs/a4-2012.pdf

30 DWP Impact Assessment: Housing Benefit – Under Occupation of Social Housing (2012) http://www.dwp.gov.uk/docs/social-sector-housing-under-occupation-wr2011-ia.pdf

31 Unfair Shares – Centre for Housing Policy, Prifysgol Sheffield, Gorffennaf 2011, tudalen 26

32 DWP Equality Impact Assessment: Renting in the Social Renting Sector (2012)http://www.dwp.gov.uk/docs/eia-social-sector-housing-under-occupation-wr2011.pdf

33 DWP Impact Assessment: Housing Benefit – Under Occupation of Social Housing (2012) http://www.dwp.gov.uk/docs/social-sector-housing-under-occupation-wr2011-ia.pdf

# 5

Cap mewn llaw?

# Cronfa Byw'n Annibynnol

Mae'r Gronfa Byw'n Annibynnol (Independent Living Fund - ILF) yn darparu cymorth ariannol ar gyfer pobl gydag anableddau difrifol er mwyn eu helpu i fyw'n annibynnol, nid mewn cartrefi gofal preswyl. Ar gyfartaledd bydd pobl yn derbyn £300 yr wythnos i gyflogi cynorthwywyr personol, uchafu annibyniaeth a dewis, cymryd rhan mewn gweithgareddau i well ansawdd eu bywydau, a gwneud cyfraniad at gymdeithas.

Yn ôl y ffigurau diweddaraf, mae 1,809 person yn hawlio ILF yng Nghymru, gyda'r mwyafrif yn siroedd Caerfyrddin, Rhondda Cynon Taf a Gwynedd.[34]

## 5.1 Prif newidiadau i ILF

Ym Mehefin 2010 caewyd ILF i ymgeiswyr newydd ac fe ddilëir y gronfa'n gyfan gwbl yn 2015. Wedi hynny, trosglwyddir cyfrifoldeb am y cynllun i Lywodraeth Cymru.

**Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yr opsiynau i drosglwyddo cyllid ILF i Gymru. Bydd yn cynnal proses ymgynghori gyda'r bobl dan sylw a rhanddeiliaid allweddol ar draws y wlad.**

## 5.2 Effaith

Mae'n anodd amcangyfrif effaith y newidiadau yn absenoldeb gwybodaeth am y trefniadau o 2015 ymlaen. Ar y gorau, bydd pobl sy'n derbyn ILF

**Mrs Jones, wrth sylwi ar sefyllfa ei mab (50 oed, cymoedd y de) sy'n dioddef o barlys ymledol dwys ac yn methu symud o'i wddf i lawr.**

*'Ni fyddai wedi ymdopi heb ILF, sydd wedi darparu'r gofal mae angen ac i'w alluogi i aros gartref, gweld ei ferch a chael rhywfaint o fywyd teuluol.'*

**Yn ôl Mrs Jones, bydd dileu ILF yn golygu ni fydd Carl yn gallu byw'n annibynnol.**

*'Mae'n debyg byddai'n arwain at golli annibyniaeth, dewis a rheolaeth dros ei fywyd'*

yn wynebu ansicrwydd am beth allai ddigwydd i'w cymorth mewn prin dwy flynedd. Ar y gwaethaf, byddant yn wynebu colli cymorth os bydd meini prawf y trefniadau a'r cymwysterau yn newid. Yn y cyfamser efallai bydd pobl sydd wedi hawlio'r arian ers 2010 yn gorfod dibynnu am gymorth gofal gan yr awdurdod lleol.

34 ILF User Profile Analysis, Rhagfyr 2012. (DWP)

# 6

# Credyd Cynhwysol

Ym mis Hydref 2013 bydd y Llywodraeth yn dechrau ar newid mawr i'r drefn wrth grynhoi budd-daliadau oed gwaith seiliedig arincwm o fewn un budd-dal, sef y Credyd Cynhwysol (Universal Credit - UC). Bydd yn cymryd lle ESA seiliedig ar waith, y Lwfans Chwilio Gwaith, Cymhorthdal Incwm, Budd-dal Tai a'r Credyd Treth Gwaith. Ni fydd yn cynnwys PIP, Lwfans Cynhalwyr, ESA seiliedig ar gyfraniadau neu'r Lwfans Chwilio Gwaith seiliedig ar gyfraniadau.

Y nod yw symleiddio'r system fudd-daliadau, symbylu pobl i weithio a darparu cymorth ar gyfer pobl sydd ei angen fwyaf.Nodir y gwahanol elfennau yn y tabl isod.

**Tabl 5: Cyfraddau Credyd Cynhwysol**[35]

| | | **Cyfradd** |
|---|---|---|
| **Lwfans sylfaenol/safonol** | Person sengl dan 25 | £246.81 |
| | Person sengl dros 25 | £311.55 |
| | Hawlwyr ar y cyd, dau dan 25 | £387.42 |
| | Hawlwyr ar y cyd, dau dros 25 | £489.06 |
| **Elfen plentyn** | Plentyn cyntaf | £272.08 |
| | Ail blentyn a mwy | £226.67 |
| **Swm ychwanegol ar gyfer plentyn anabl** | Cyfradd is – plentyn yn derbyn DLA ac eithrio'r elfen gofal uchaf | £123.62 |
| | Cyfradd uwch – plentyn yn derbyn DLA ar yr elfen gofal uchaf | £352.92 |
| **Gallu gweithio** | Gallu gwaith cyfyngedig | |
| | Gallu gwaith a gweithgareddau cysylltiedig â gwaith cyfyngedig | £123.62<br>£303.66 |

**Tabl 5: Cyfraddau Credyd Cynhwysol (*parhad*)**

| | | Cyfradd |
|---|---|---|
| Elfen cynhaliwr | Cynhalwyr pobl gyda anableddau difrifol am dros 35 awr yr wythnos. Dim modd ei gyfuno â thaliad gallu gweithio | £144.70 |
| Elfen costau plant | Ar gyfer rhieni sengl mewn gwaith a pharau gyda'r ddau'n gweithio (oni fydd un rhiant â gallu gweithio cyfyngedig neu'n gynhaliwr), 70% o gostau gofal plant cofrestredig hyd at uchafswm o un plentyn | £532.29 |
| | Hyd at uchafswm o ddau blentyn neu fwy | £912.50 |
| Elfen tai | Pobl sy'n rhentu, hawl yn debyg i'r trefniadau budd-dal tai newydd | |

## 6.1 Prif newidiadau

Mae llawer o grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl wedi croesawu'r newid i system symlach a hefyd wedi croesawu hyblygrwydd Credyd Cynhwysol wrth ganiatáu cyfuno rhywfaint o waith tâl gyda budd-daliadau. Fodd bynnag, mae rhai elfennau wedi achosi consyrn, yn bennaf colli sawl elfen o'r hen system oedd, er yn gymhleth, yn diwallu anghenion penodol.

Cyflwynir Credyd Cynhwysol mewn tri chymal dros gyfnod o bedair blynedd rhwng 2013 a 2017, manylion Tabl 6.

**Tabl 6: Cyflwyno Credyd Cynhwysol**

| Cyfnod | Newid |
|---|---|
| Peilot: Ebrill 2013 | Lansio mewn ardaloedd peilot er mwyn profi'r drefn a dysgu gwersi. |
| Cymal un: Hydref 2013 - Ebrill 2014 | Dirwyn i ben ceisiadau ar gyfer y budd-daliadau cyfredol, gan drin ceisiadau newydd o dan y Credyd Cynhwysol.<br>Hawlwyr sy'n wynebu newid sylweddol mewn amgylchiadau, megis dechrau swydd newydd neu enedigaeth plentyn, yn newid i'r Credyd Cynhwysol yn y cyfnod hwn. |
| Cymnal dau: Ebrill 2014 - diwedd 2015 | 3.5 miliwn hawliwr (a'u partneriaid a dibynyddion) yn newid i'r Credyd Cynhwysol. Blaenoriaeth i achosion llai cymhleth, sef pobl sengl, nid-anabl, heb ddibynyddion.<br>Ceisiadau newydd a 'mudo naturiol' yn parhau. |
| Cymal tri: diwedd 2015 - diwedd Hydref 2017 | Pob teulu sy'n weddill yn trosglwyddo i'r Credyd Cynhwysol (tua 3 miliwn teulu) (Parhau i flaenoriaethu achosion llai cymhleth).<br>Rheolir hyn fesul ardal awdurdod lleol wrth i'r hen drefn ddirwyn i ben<br>Ceisiadau newydd a 'mudo naturiol' yn parhau. |

### 6.1.1 Dileu elfen anabledd Credyd Treth Plant

Gyda'r Credyd Cynhwysol, bydd cymorth a ddarperir gan elfen anabledd Credyd Treth Plant (£57 yr wythnos) yn cael ei ddisodli gan 'ychwanegiadau anabledd' o fewn y budd-dal tai. Bydd hynny ond yn darparu £28 yr wythnos oni fydd plentyn yn derbyn cyfradd uwch elfen gofal DLA neu'n berson dall cofrestredig.

### 6.1.2 Dileu'r Premiwm Anabledd Difrifol

Mae'r premiwm anabledd difrifol (Severe Disability Premium - SDP) yn rhoi cymorth ychwanegol i oedolion anabl sy'n derbyn cyfradd ganolig neu uwch elfen gofal DLA ac yn byw ar ben eu hunain (neu blant yn unig) a heb gymorth cynhaliwr ar lwfans cynhaliwr. Bydd y cymorth ychwanegol yn helpu i dalu costau byw ar ben eich hun a heb gynhaliwr. Nid oes taliad cyfatebol o fewn y Credyd Cynhwysol i helpu gyda chostau gofal – ni fydd y cynnydd yn y gyfradd a delir i bobl gyda gallu gweithio a gweithgaredd cysylltiedig â gwaith cyfyngedig yn gwneud iawn am golli SDP.

### 6.1.3 Diffyg cymorth ar gyfer pobl anabl gydag amhariadau lefel is

Bydd pobl a asesir i feddu ar allu gweithio a gweithgaredd cysylltiedig â gwaith cyfyngedig yn derbyn elfen gallu gweithio Credyd Cynhwysol, hyd yn oed os byddant yn gweithio. Fodd bynnag, efallaiy bernir rhai pobl a ystyrir gydag amhariadau lefel is, ee defnyddio cadair olwyn heb beiriant, yn gallu gweithio a ddim yn derbyn unrhyw gymorth ariannol hyd yn oed os yn wynebu costau uwch a rhwystrau eraill rhag gweithio.

## 6.2 Effaith

Bydd cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn cael effaith sylweddol ar filoedd o deuluoedd syn cynnwys person anabl. Amcangyfrifir bydd 450,000 person yn y Deyrnas Unedig yn derbyn llai o arian o ganlyniad.[36] O dderbyn fod canran uwch o bobl anabl yng Nghymru na gweddill y Deyrnas Unedig, bydd yr effaith yn sylweddol.

Amcangyfrifir bydd colli elfen anabledd Credyd Treth Plant yn arwain at deuluoedd 100,000 o blant anabl yn y Deyrnas Unedig yn colli hyd at £28 yr wythnos, yn cyfateb i ostyngiad mewn incwm o £1,500 y flwyddyn.[37] Mae teuluoedd gyda phlant anabl yn wynebu costau byw sylweddol uwch, wrth orfod prynu cymhorthion ac addasiadau, talu costau teithio uwch a chostau gofal mawr. Mae dwy ran o dair o deuluoedd gyda phlant anabl yn ofni byddant yn gorfod gwario llai ar fwyd, gyda dros hanner yn dweud eu bod o dan risg o fynd i ddyled o ganlyniad. Dywedodd un o bob 10 byddent yn wynebu problemau wrth

geisio parhau i fyw yn eu cartrefi eu hunan.[38]

Yn ogystal, bydd colli'r Premiwm Anabledd Difrifol yn golygu gallai rhai oedolion anabl, heb oedolyn arall i'w helpu, dderbyn rhwng £28 a £58 llai bob wythnos nag ar hyn o bryd. Credir bydd yn effeithio oddeutu 230,000 oedolyn anabl yn y Deyrnas Unedig. Yn achos oedolion heb rywun i'w helpu, ni fyddant yn gallu talu am ofal ychwanegol, gan wynebu mynd heb gymorth gyda thasgau beunyddiol neu'n methu mynd allan o'u cartrefi. Dywedodd wyth allan o bob 10 person anabl oed gwaith, petaent yn wynebu gostyngiad yn eu Premiwm Anabledd Difrifol byddent yn gorfod gwario llai ar fwyd a dywedodd yr un gyfran byddent yn gorfod gwario llai ar wresogi.[39] Roedd rhai pobl anabl yn ofni na fyddent yn gallu fforddio talu am ofal ac felly'n gorfod symud i ofal preswyl. Yn yr un arolwg, tanlinellwyd yr effaith ar blant a phobl ifanc sy'n byw gydag oedolyn sy'n colli SDP. Efallai bydd y plant hynny'n gorfod helpu eu rhiant anabl yn absenoldeb cynhaliwr tâl. Mae llawer o blant gydag oedolyn anabl eisoes yn darparu llawer o ofal - bydd colli SDP yn cynyddu'r pwysau arnynt.

Bydd newid lefelau cymorth argyfer pobl anabl mewn gwaith yn debyg o olygu gostyngiad o £40 yr wythnos yn eu cymorth ariannol. Mae pobl anabl eisoes yn wynebu costau uwch wrth weithio, ac yn aml ni fyddant yn gofyn am gymorth nac yn gymwys i'w gael gan y cynllun Mynediad i Waith (Access to Work). Dywedodd dros hanner o'r bobl anabl byddai gostwng y cymorth yn ei gwneud yn anos iddynt barhau i weithio, ac ychydig o dan 50% yn credu byddent yn mynd i ddyled. Amcangyfrifir yr effeithir 116,000 person yn y Deyrnas Unedig gan y newidiadau hyn.[40]

35 Disability Rights UK Factsheets http://www.disabilityrightsuk.org/f55.htm
36 Holes in the Safety Net: The Impact of Universal Credit on Disabled People and Their Families (2012) The Children's Society tudalen 5
37 Tipping Point – Hardest Hit Coalition, tudalen 22
38 Holes in the Safety Net: The Impact of Universal Credit on Disabled People and Their Families (2012) The Children's Society tudalen 3
39 Holes in the Safety Net: The Impact of Universal Credit on Disabled People and Their Families (2012) The Children's Society tudalen 3
40 'Half a million disabled people could lose out under Universal Credit'(2012) https://www.citizensadvice.org.uk/macnn/press_20121017

7

# Cap Budd-daliadau

Yn Ebrill 2013 cyflwynircap ar y cyfanswm budd-daliadau bydd pobl oed gwaith yn gallu hawlio:

- £500 yr wythnos teuluoedd gyda phlant
- £350 yr wythnos unigolion.

Bydd y cap yn cynnwys y rhan helaeth o fudd-daliadau, yn cynnwys Budd-dal Tai, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Chwilio Gwaith, Grŵp Gwaith ESA, Budd-dal Plant& Credyd Treth Plant, Lwfans Cynhalwyr. Bydd hefyd yn gymwys i'r Credyd Cynhwysol pan ddaw i fodolaeth.

Bydd teuluoedd yn rhydd o'r cap os bydd unrhyw un o fewn y teulu'n derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau isod:

- Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) neu'r Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)
- Lwfans Gweini (AA)
- Elfen grŵp cymorth ESA
- Budd-daliadau anafiadau diwydiannol.

Mae'r trefniadau hyn yn cynnig rhywfaint o gymorth ar gyfer cyfran sylweddol o bobl anabl. Ond bydd yn effeithio pobl anabl nad ydynt yn gymwys i hawlio PIP neu grŵp cymorth ESA, er enghraifft oherwydd lefelau anableddis. Iddyn nhw, bydd colli DLA cyfradd is neu eu dyfarnu'n ffit i weithio (neu waith cyfyngedig) yn cael effeithiau ychwanegol tu hwnt i golli arian budd-daliadau.

# 8 Lwfans Cynhaliwr

Telir lwfans cynhaliwr o £58.45 yr wythnos i unigolion sy’n edrych ar ôl rhywun gydag anghenion gofal sylweddol o 35 awr yr wythnos neu fwy. Rhaid i’r person sy’n cael gofal fod yn derbyn DLA cyfradd ganolig neu uwch, neu Lwfans Gweini.

## 8.1 Prif newidiadau

Er na fydd y diwygiadau lles yn effeithio’r Lwfans Cynhaliwr yn uniongyrchol, gallai newidiadau i’r DLA a dderbynnir gan y person dan ofal effeithio eu hawl i’w gael. Os bydd rhywun yn colli cymhwyster DLA cyfradd ganolig neu uwch neu gymhwyster PIP yna bydd y cynhaliwr hefyd yn colli Lwfans Cynhaliwr.

## 8.2 Effaith

Nid yw nifer y bobl sy’n debyg o hael eu heffeithio yn glir, oherwydd nid oes ffigurau o ran nifer cynhalwyr pobl a allai golli DLA / PIP. Fodd bynnag, gallai colli Lwfans Cynhaliwr fod yn ergyd drom, oherwydd bydd y person yn eu gofal yn dal i fod angen cymorth ond bydd angen i’r cynhaliwr chwilio am waith ei hun.

**Peter, 59, (cynhaliwr), Blaengarw**

***‘Ar ran fy mab Adam, sydd ag anawsterau dysgu – petai’n colli ei gymhwyster DLA byddai’n cael effaith ar y teulu gan y byddwn yn colli lwfans cynhaliwr. Byddai hynny’n ostyngiad enfawr yn ein cymorth ariannol a ddim yn gadael llawer i dalu’r holl gostau ychwanegol sy’n wynebu person anabl’***

9

# Newid Mynegai

Y newid olaf, ond nid y lleiaf, yw newid dull diweddaru'r rhan helaeth o fudd-daliadau ar gyfer pobl oed gwaith. Newidiwyd y drefn o dan amodau Cyllideb Argyfwng 2010 o RPI (Retail Price Index) i CPI (Consumer Price Index) sydd fel arfer yn llai. Amcangyfrifwyd byddai'r newid yn arbed bron £6 biliwn y flwyddyn i'r Llywodraeth erbyn 2015[41] – yn cyfateb i golled o £6 biliwn i hawlwyr budd-daliadau. Bydd Mesur Uwchraddio Budd-daliadau Lles 2012, sydd ar hyn o bryd yn mynd drwy'r Senedd, yn gostwng lefelau uwchraddio budd-daliadau i 1% y flwyddyn, dim ots beth fydd y gyfradd chwyddiant.

Eithriwyd nifer o fudd-daliadau cysylltiedig ag anabledd o'r mesur uwchraddio,[42] yn cynnwys DLA, taliadau anabledd a delir i rai pobl ar fudd-daliadau penodol, Lwfans Cynhaliwr a rhai mewn grŵp cymorth ESA. Ond, mae'r budd-daliadau isod yn dod o dan amodau'r mesur, yn ogystal â budd-daliadau cyffredinol megis Budd-dal Tai a'r Credyd Cynhwysol:

- lwfans cyfraniadau ESA
- symiau penodedig ESA cysylltiedig ag incwm
- elfen waith ESA cysylltiedig â chyfraniadau
- elfen waith ESA cysylltiedig ag incwm
- swm ychwanegol o'r Credyd Cynhwysol ar gyfer plentyn anabl (dim ond y lleiaf o'r symiau a nodwyd)
- elfen gallu gweithio cyfyngedig Credyd Cynhwysol

Oherwydd cymhlethdod y newidiadau hyn, mae'n amhosibl rhagweld yr effaith ar bobl anabl. Bydd yn effeithio'r rhan helaeth i ryw raddau, ond bydd yr union effaith yn dibynnu ar y gymysgedd o fudd-daliadau cap a 'diogel' byddant yn derbyn. Wedi dweud hynny, gyda chwyddiant yn debyg o godi'n gyflymach na budd-daliadau a phobl anabl yn wynebu costau byw uwch na phobl nid-anabl, mae'n sicr bydd pwysau mawr ar gyllidebau pobl anabl yn y dyfodol.

41 Cyllideb Llywodraeth San Steffan (2010)
42 Tŷ'r Arglwyddi (2013) Library Note: Welfare Benefits Up-rating Bill (HL Bill 78 of 2012–13). LLN 2013/004

# 10 Argymhellion

Cap mewn llaw?

**Llywodraeth San Steffan**

**‘People who are sick, who are vulnerable, the elderly – I want you to know we will look after you’[43]**

Yn y termau cryfaf posibl, rydym yn annog Llywodraeth San Steffan i wireddu’r ymrwymiad hwn gan y Prif Weinidog  David Cameron AS mewn Cynhadledd y Blaid Geidwadol, Hydref 2010.

Mae ymchwil Anabledd Cymru wedi tanlinellu sut mae’r newidiadau sydd ar y gweill, ynghyd â rhai i ddod, yn sicr o gael effaith ddifrifol ar fywydau llawer o unigolion anabl, eu teuluoedd a’r gymuned ehangach. Bydd y diwygiadau’n cynyddu tlodi ac unigedd, ynghyd â chael effaith negyddol hir dymor ar annibyniaeth a safonau byw pobl anabl. Rydym wedi sylwi bod DWP wedi rhoi’r gorau i’r apêl i’r Uchel Lys yn erbyn achos Gorry, gan sefydlu bod y meini prawf maint a ddefnyddiwyd i bennu budd-dal tai yn gwahaniaethu’n anghyfreithlon yn erbyn plant anabl nad ydynt yn gallu rhannu ystafell oherwydd eu hamhariadau. Bydd hefyd yn llesol i blant anabl a effeithir gan y “dreth ystafell wely”.

Erbyn hyn, mae Anabledd Cymru yn ymwybodol o heriau cyfreithiol eraill yn erbyn llawer o ddiwygiadau lles Llywodraeth San Steffan, yn cynnwys asesiadau gallu gweithio, cyfyngu cyfnodau ESA seiliedig ar gyfraniadau a thynnu achosion lles allan o’r drefn Cymorth Cyfreithiol.

- Rydym yn galw ar yr Adran Gwaith & Pensiynau (DWP) i ystyried yr heriau hyn fel y mae gyda Budd-dal Tai a’r dreth ystafell wely yn achos plant anabl.
- Rydym yn galw ar DWP i weithredu argymhellion llawn yr adolygiadau annibynnol o’r asesiad gallu gweithio (Work Capability Assessment)
- Rydym yn galw ar DWP i ailystyried ei bolisi ‘tan-ddeiliadaeth’ ar

gyfer pobl mewn tai cymdeithasol a sicrhau na fydd pobl anabl sydd wedi cael addasiadau i'w cartrefi yn gorfod talu'r dreth ystafell wely.

- Rydym yn galw ar DWP i gynnal asesiad effeithiau cronnus o'r diwygiadau lles ar bobl anabl ar draws y Deyrnas Unedig, yn cynnwys Cymru.
- Rydym yn galw ar DWP i stopio defnyddio lleoliadau anaddas fel llysoedd barn argyfer gwrandawiadau tribiwnlys, sy'n cysylltu hawlio budd-daliadau gydag achosion troseddol.

## Llywodraeth Cymru

O fewn cyfyngiadau ei phwerau ac adnoddau, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i liniaru effeithiau'r diwygiadau lles diweddar yng Nghymru yn unol â'r Cynllun Gweithredu Taclo Tlodi ac wrth gyflwyno Fframwaith Gweithredu Byw'n Annibynnol. Dyma argymhellion pellach Anabledd Cymru ar gyfer Llywodraeth Cymru i helpu pobl anabl i osgoi tlodi, unigedd a dibyniaeth.

Argymhellion ar gyfer **Llywodraeth Cymru**:

- Cyhoeddi a gweithredu'n syth ar ganlyniadau'r '*Adolygiad Cyngor a Gwybodaeth*' er mwyn cryfhau'r darpariaethau presennol ar draws y wlad.
- Creu trefniadau teg i gyllido a datblygu gwasanaethau adfocatiaeth ar draws y wlad, a sicrhau y darperir nhw ar gyfer pobl gydag anableddau amrywiol.
- Rhoi cyfarwyddyd cryf a chlir i awdurdodau lleol o ran defnyddio Taliadau Tai Dewisol er mwyn isafu amrywiaethau mewn meini prawf cymhwyster rhwng awdurdodau lleol.
- Cyflwyno ymgyrch gyhoeddusrwydd ar ddarpariaeth Taliadau Tai Dewisol ar gyfer pobl anabl.
- Helpu i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o hawliau ychwanegol megis rhyddhau TAW ar nwyddau a gwasanaethau.
- Dilyn i fyny'r adolygiad o gofrestrau tai hygyrch a sicrhau bydd pob awdurdod lleol yn datblygu a chynnal cofrestrau tai hygyrch, gan

ddarparu gwybodaeth am gartrefi gydag addasiadau ar gyfer pobl anabl ar draws y wlad.

- Yng nghyd-destun y fframwaith cenedlaethol i daclo troseddau atgasedd, cymell cyrff i hyrwyddo delweddau positif o bobl anabl ar y cyfryngau ac o fewn cymunedau, a thaclo disgrifiadau o bobl anabl ar y cyfryngau fel 'scroungers, fakers a workshy'.
- Dylai llywodraethau Cymru a San Steffan sicrhau na fydd y newidiadau a threfniadau hir dymor i gefnogi byw'n annibynnol yn arwain at ostwng arian pobl sy'n derbyn cymorth gan y Gronfa Byw'n Annibynnol.
- Gweithredu pob elfen o'r Fframwaith Byw'n Annibynnol fel cyfraniad hanfodol at helpu pobl anabl gydag anghenion cymorth dwys fyddai fel arall yn gymwys i dderbyn cymorth gan y Gronfa Byw'n Annibynnol er byw'n annibynnol o fewn eu cymuned.
- Defnyddio mesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) er mwyn trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol ar sail system gymorth o dan gyfeiriad dinasyddion.

## Cyrff cyhoeddus

Mae Anabledd Cymru yn cydnabod rôl awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r gwasanaethau brys mewn darparu gwasanaethau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gyfer pobl anabl sy'n taclo tlodi, galluogi pobl i fyw'n annibynnol ac yn cynnal cymunedau diogel. Mewn cyfnod o ostwng cyllidebau a phenderfyniadau gwariant anodd, mae'n bwysig bod cyrff cyhoeddus yn asesu effeithiau eu penderfyniadau, yn cynnwys ymgynghori â phobl anabl.

Argymhellion ar gyfer cyrff cyhoeddus:

- Cysylltu â phobl anabl a'u cyrff cynrychioladol er mwyn trafod polisïau a gwasanaethau sy'n eu heffeithio
- Cynnal asesiadau effeithiau cyfartal ar bolisïau a chyllidebau er mwyn nodi effeithiau ar bobl anabl a chymryd camau lliniaru addas.

43 Araith gan y Prif Weinidog David Cameron, 6 Hydref 2010, Cynhadledd Hydref y Blaid Geidwadol